Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod Mai 2025

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Mawrth 2025.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol.

MATERION PERSONOL
Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Tom Jones 32 Bryndulais. Bu Tom Jones yn Gynghorydd am flynyddoedd lawer a diolchwyd am ei wasanaeth dros y blynyddoedd.
Estynnwyd cydymdeimlad hefyd â Howard Davies a'r Teulu ar golli ei fam, yn ogystal a Linda Evans ar golli ei thad a hefyd Andrew Thomas ar golli ei dad yng nghyfraith yn ddiweddar.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Cafwyd cadarnhad bod Pwyllgor wedi ei ffurfio ac mai Paul Jones yw'r Cadeirydd ac Hefin Jones ac yn cynrychioli'r Cyngor Bro. Cafodd cynlluniau ar gyfer y cae chwarae ei drafod yn y Cyfarfod Blynyddol.

DIFFYG YMATEB
Roedd y Clerc wedi cysyllu eto'n ddiweddar â Chyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â sawl pwnc yn y plwyf. Nid oedd wedi derbyn ymateb gan amryw o'r swyddogion perthnasol.

PENDERFYNWYD CEFNOGI
Cylch Meithrin Llanllwni

**Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 14 Gorffennaf 2025 am 8yh.**

CYFARFOD BLYNYDDOL

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Eglwys Llanllwni, nos Lun 12 Mai 2025 am 8yh. Cyflwynwyd mantolen 01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025 a chytunwyd gan y cynghorwyr bod y cyfrifon yn gywir. Llofnodwyd y ffurflenni priodol gan y Cadeirydd. Roedd Meinir Evans, aelod o'r cyhoedd, yn bresennol a'r Clerc wedi derbyn ebost gan Reolwr Cronfa Fferm Wynt Brechfa yn egluro bod cynlluniau wedi'u cyflwyno gan Meinir Evans ar gyfer gwneud cais ariannol i ddatblygu'r cae chwarae. Roedd disgwyl i geisiadau ariannol gael eu cyflwyno erbyn 14 Mai 2025. Yn ystod y cyfarfod gwnaed cyflwyniad gan Meinir Evans a oedd wedi ei greu wedi ymgynghori â gwahanol sefydliadau ac yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer datblygu'r cae chwarae. Penderfynwyd yn unfrydol gan y bod y cais yn cael ei gyflwyno.
Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.